**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Hydref 2025

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2023-24**

Diolch am adroddiad y Pwyllgor yn dilyn ei waith craffu blynyddol ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2023-24.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n ofalus argymhellion ystyriol y Pwyllgor ac wedi derbyn yr holl argymhellion. Mae ymatebion atodol hefyd wedi'u darparu yn yr Atodiad i'n hymateb, lle'r oedd elfennau o'r adroddiad yn gofyn am ddarparu diweddariadau nad oeddent wedi'u mynegi fel argymhellion ffurfiol.

Roedd un cais o'r fath am ddiweddariad mewn perthynas â'r taliad arbennig a adroddwyd ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Oherwydd cyfrinachedd masnachol, darparwyd y diweddariad ar wahân fel Atodiad i'r llythyr hwn, byddem yn gofyn i'r Pwyllgor beidio â chyhoeddi cynnwys y diweddariad hwn a'i drin yn unol â hynny fel gwybodaeth gyfrinachol.

Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno nodi, oherwydd amseriad ein cylchoedd paratoi ac archwilio cyfrifon, bod y naratif ar gyfer yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd yn cael ei gwblhau'n rhannol a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Ar ôl cael adroddiad y Pwyllgor ym mis Medi, rydym wedi ystyried yr argymhellion a wnaed ganddo ar gyfer yr adrannau hyn yng nghyfrifon 2024-25 ac wedi ceisio gwneud rhywfaint o newidiadau yng ngoleuni'r argymhellion hynny, o fewn cwmpas yr amserlenni ar gyfer paratoi ac archwilio.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Yours,

Andrew Goodall

**Dr Andrew Goodall**
Yr Ysgrifennydd Parhaol / Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Llywodraeth Cymru

# Craffu ar Gyfrifon: Llywodraeth Cymru 2023-24

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

27/10/2025

## Crynodeb

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fel rhan o'i raglen waith flynyddol Craffu ar Gyfrifon, sesiwn dystiolaeth ar 19 Chwefror 2025 ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfunol 2023-24 Llywodraeth Cymru a gosododd ei adroddiad dilynol ar 15 Medi 2025.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 18 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Y ddogfen hon yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Tudalen**

**1. Cyflwyniad ........ 3**

**2. Argymhellion ........ 4**

- Argymhelliad 1 ........ 4
- Argymhelliad 2 ........ 5
- Argymhelliad 3 ........ 6
- Argymhelliad 4 ........ 8
- Argymhelliad 5 ........ 9
- Argymhelliad 6 ........ 10
- Argymhelliad 7 ........ 13
- Argymhelliad 8 ........ 14
- Argymhelliad 9 ........ 16
- Argymhelliad 10 ........ .17
- Argymhelliad 11 ........ 18
- Argymhelliad 12 ........ 19
- Argymhelliad 13 ........ 21
- Argymhelliad 14 ........ 23
- Argymhelliad 15 ........ 24
- Argymhelliad 16 ........ 25
- Argymhelliad 17 ........ 26
- Argymhelliad 18 ........ 27

**3. Atodiad 1 – Ymatebion Atodol ........ 288**

# 1. Cyflwyniad

## Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnwys 18 o argymhellion.

**1.** Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad Craffu ar Gyfrifon ac wedi rhoi ystyriaeth briodol i bob argymhelliad a wnaed.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl argymhellion.

# 2. Argymhellion

Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, er gwaethaf yr heriau o ran paratoi'r cyfrifon gan ddefnyddio prosesau a systemau presennol, pam nad yw'n bwriadu buddsoddi yn y system gyllid newydd hyd nes iddi ddod yn hanfodol i fusnes.

Derbyn

Fel rhan o'n Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol, rydym wedi bod yn gosod y sylfaen ar gyfer gwasanaethau cymorth canolog clyfrach a mwy integredig, sy'n addas i'r dyfodol. Mae Achos Busnes wedi'i ddatblygu i gefnogi hyn, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau Cyllid, Adnoddau Dynol a Grantiau allweddol. Mae'r swyddogaethau hyn yn ganolog i weithrediadau Llywodraeth Cymru ac yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni ein nodau strategol. Mae asesiad o opsiynau cyflawni (o system gwbl integredig i weithredu systemau ar wahân yn raddol) ar y gweill ar hyn o bryd i sicrhau hyblygrwydd a gwydnwch yn y ffordd y mae'r Rhaglen yn symud ymlaen.

Rhagwelir y bydd yr Achos Busnes Llawn wedi'i gwblhau erbyn 30 Ebrill 2026 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Gweinidogion yn Nhymor newydd y Senedd. Ar hyn o bryd, mae costau dangosol yn awgrymu y bydd gweithredu yn costio rhwng £55m a £65m.

Dylid nodi mai dim ond ar ôl i'r Gweinidogion gymeradwyo'r cyllid y gall y gwaith gweithredu ddechrau, ac y bydd hynny'n cymryd rhwng dwy a phedair blynedd yn seiliedig ar yr opsiwn cyflawni a ddewisir a'r profiad o weithredu mewn adrannau llywodraeth eraill.

Nod y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol yw galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu Safonau Ariannol Swyddogaethol y Llywodraeth, gyda systemau Adnoddau Dynol a Thalu Grantiau swyddogaethol modern. Bydd hyn yn ei dro yn ein galluogi i ymgorffori'r technolegau deallusrwydd artiffisial (AI) diweddaraf yn y swyddogaethau hyn, ac yn helpu i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran AI. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio data o ansawdd uchel i gynhyrchu un fersiwn o'r gwirionedd sy'n galluogi adroddiadau amlddefnydd.

Bydd hyn yn caniatáu, ymhlith pethau eraill, enillion o ran effeithlonrwydd ar draws y sefydliad, ac yn cefnogi'r broses o gynhyrchu'r cyfrifon.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor maes o law am ei hadolygiad o’r swyddogaeth gyllid ar draws y sefydliad, a’r mesurau eraill y mae’n eu cymryd i wella cyflymder ac effeithlonrwydd ei phroses paratoi cyfrifon, gan sicrhau iechyd a llesiant staff ar yr un pryd.

Derbyn.

Dechreuodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru Adolygiad o'r Swyddogaeth Gyllid yn 2025. Mae'r Adolygiad hwn yn cyd-fynd â LIC2025, fel rhan o'r amcan 'Ysgogi effeithlonrwydd, gwella llywodraethiant a grymuso'.

Ar hyn o bryd, mae Strategaeth Gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei datblygu, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Swyddogaeth Gyllid Llywodraeth y DU. Amcanion y strategaeth yw: Craff a Seiliedig ar Ddata, Sgiliau a Thalent, ac Arloesol a Ffocws ar Gyflawni.

Nod Strategaeth Gyllid Llywodraeth Cymru yw darparu dull cydweithredol o recriwtio a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn y teuluoedd swyddi cyllid; rhoi diweddariad ar gefnogi aelodau ein Proffesiwn Cyllid; ac adolygu prosesau yn erbyn safonau swyddogaethol cyllid y llywodraeth. Bydd hyn nid yn unig yn gosod cyfeiriad y Proffesiwn Cyllid - bydd hefyd yn sicrhau bod y Swyddogaeth Gyllid yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithlon ar draws y sefydliad.

O ran mesurau sy'n cael eu cymryd i wella cyflymder ac effeithlonrwydd y broses o baratoi cyfrifon, gan sicrhau iechyd a llesiant staff yr un pryd, bydd gwelliannau sylweddol yn gysylltiedig â datblygiadau o ran systemau Cyllid, Grantiau ac Adnoddau Dynol mwy hirdymor o dan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol.

Ar gyfer cylch cyfrifon 2024-25, cafodd amserlen sefydlog ei datblygu a'i chytuno ag Archwilio Cymru a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ar ôl ystyried yn ofalus y gofynion ychwanegol y byddai'r cylch yn eu gosod ar dimau Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar gyfer Prisiad Pum Mlynedd y Rhwydwaith Ffyrdd a newidiadau i'r modelau Prisio Benthyciadau Myfyrwyr a oedd yn effeithio ar gylch paratoi ac archwilio 2024-25.

Argymhelliad 3

Rydym yn ailbwysleisio ein galwad am dryloywder ynghylch yr amserlen ar gyfer y cyfrifon blynyddol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer Cyfrifon 2024-25, a phob blwyddyn o hynny ymlaen, cyn gynted â phosibl yn dilyn ei chytundeb ag Archwilio Cymru.

Derbyn

Cyflwynwyd Cynllun Archwilio 2024-25 i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ar 19 Mai 2025 er mwyn cytuno arno, yn dilyn ymgysylltu a chynllunio rhwng Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru.
Mae hyn yn gyson ar y cyfan â'r amseru mewn blynyddoedd blaenorol, er bod y cynlluniau terfynol wedi'u hystyried yng nghyfarfodydd mis Gorffennaf ambell waith. Ym mhob achos, ceir trafodaeth gynnar o'r amserlen gyffredinol ar gyfer archwilio gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Mai.

Yna, cafodd yr amserlen ar gyfer cyfrifon blynyddol 2024-25 ei diweddaru ar wefan Llywodraeth Cymru ddydd Gwener 30 Mai. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi ei hamserlen yn flynyddol unwaith y bydd y Cynllun Archwilio wedi'i gytuno â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn dilyn trafodaethau â'r Pwyllgor yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynglŷn ag amserlen Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng Archwilio Cymru, tîm Cyllid Llywodraeth Cymru a Chadeirydd (Cyfarwyddwr Anweithredol) ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 12 Medi 2025.

Cynhaliodd y sesiwn hon adolygiad manwl o sut mae'r amserlen ar gyfer paratoi ac archwilio'r Cyfrifon wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, sut mae cwmpas y Cyfrifon a'r prosesau paratoi wedi newid ar gyfer y nifer cynyddol uwch o gyrff Llywodraeth Ganolog sydd bellach o fewn cwmpas yr adroddiadau ar alldro adnoddau yn dilyn cynnydd ar waith i sicrhau cysondeb, effeithiau sylweddol datblygiadau o ran safonau cyfrifyddu nid yn unig ar Lywodraeth Cymru ond hefyd ar endidau cyfunol, newidiadau yng nghymhlethdod y gweithgarwch y cyfrifir amdano wrth i ddulliau mwy arloesol o gyflawni gael eu hystyried er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf i'r pwrs cyhoeddus, a datblygiadau o ran Safonau Archwilio.

Fe wnaeth y sesiwn hefyd ystyried y rhyngweithio rhwng y broses o baratoi ac archwilio'r Cyfrifon a goblygiadau'r rhaglen 'Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol' i ddatblygiadau o ran y system gyllid, Strategaeth Swyddogaeth

Gyllid Llywodraeth Cymru sy'n cael ei datblygu a mabwysiadu Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth, datblygiadau polisi ehangach Llywodraeth Cymru ynghylch creu a diddymu Cyrff Hyd Braich newydd sy'n effeithio ar gynllunio ar gyfer y ffin gyfrifyddu a'r rhyngweithio â'r amserlenni nid yn unig ar gyfer yr archwiliad o endidau cyfunol ond hefyd o ran cynhyrchu ac archwilio cyfrifon yr holl gyrff Llywodraeth Ganolog sydd o fewn cwmpas ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru.
Cefnogodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gasgliad tîm Cyllid Llywodraeth Cymru yn llawn y byddai gosod cynllun tair blynedd ar gyfer gwella yn ddatblygiad defnyddiol, ond na fyddai gosod cynllun o'r fath ar yr adeg hon yn ddoeth o ystyried:

- Datblygiad parhaus yr achos busnes 'Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol' i'w gymeradwyo yn 2026-27
- Ansicrwydd ynglŷn â'r sefyllfa bosibl o ran Cyrff Hyd Braich yn y dyfodol o ystyried y disgwylir i lawer fod yn destun adolygiadau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, a'r potensial ar gyfer Rhaglen Lywodraethu newydd yn nhymor y Senedd newydd.

O ystyried yr adolygiad manwl a gynhaliwyd a'r cyd-destun ehangach ar gyfer y broses gynhyrchu bresennol, mae tîm archwilio Archwilio Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru yn derbyn, o ran amseru, y byddai'n well gosod cynllun tair blynedd ar ôl datrys ansicrwydd allweddol sydd ag effeithiau sylweddol fel y nodir uchod.

Bydd gwaith yn parhau i geisio enillion cynyddrannol, ond mae unrhyw newid sylweddol i amseriad y cylch cyfrifon yn dibynnu'n fawr ar benderfyniadau a buddsoddiad yn y dyfodol.

Argymhelliad 4.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch sut y mae wedi ymgysylltu ag unrhyw endidau neu unigolion yn y sector preifat ynghylch buddsoddi yn GCRE Ltd, manylion faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar GCRE Ltd hyd yn hyn, ac a fydd cam cyntaf adeiladu'r cynllun meistr wedi'i gwblhau erbyn canol 2025.

Derbyn

Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r sector preifat ynghylch buddsoddi yn GCRE Ltd yn cael ei arwain gan y cwmni, sydd wedi'i gyfansoddi ac sydd â'r adnoddau i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Mae'r bwrdd a'r tîm gweithredol yn GCRE Ltd yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â darpar fuddsoddwyr mewn perthynas â'r prosiect arloesi rheilffyrdd craidd a gweithgareddau ategol a allai gael eu cydleoli ar y safle.

Mae swyddogion wedi cefnogi'r tîm gweithredol yn y gorffennol mewn trafodaethau uniongyrchol gyda darpar fuddsoddwyr ar gais y cwmni, ac maent yn barod i wneud hynny eto, pe bai hyn yn briodol ac yn fuddiol i wireddu'r amcan o gyflawni'r prosiect GCRE. Wrth gwrs, mae natur yr ymgysylltu â'r farchnad yn fater masnachol sensitif; fodd bynnag, pe bai angen rhagor o wybodaeth am y gwaith ymgysylltu penodol a gynhelir gan GCRE Ltd, gellid darparu'r wybodaeth hon ar wahân yn gyfrinachol i'r Pwyllgor.

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £44.9m yn GCRE.

O ran cynnydd yn erbyn y cynllun meistr, nid yw adeiladu sy'n benodol i'r prosiect wedi dechrau eto ac ni fydd hynny'n dechrau hyd nes y ceir ymrwymiad cytundebol i ddarparu'r buddsoddiad angenrheidiol. Fodd bynnag, mae gwaith ar y safle wedi cael ei symud ymlaen er mwyn cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen ar y safle ar ôl rhoi'r gorau i gloddio am lo yn Nant Helen.

Argymhelliad 5.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ganlynol ynghylch y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio:

- Pa bryd y cafwyd y dyfeisiau System Ynni Deallus a nodwyd yn ystod 2023-24 fel rhai nad oeddent yn gweithio mwyach, neu pa bryd y cawsant eu gosod.
- Cost gyffredinol y contractau sy'n gysylltiedig â chaffael y Pecyn System Ynni Deallus ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, i osod hyd a lled y golled mewn cyd-destun.
- Sut mae Llywodraeth Cymru wedi lledaenu unrhyw wersi a ddysgwyd, gan sicrhau bod ei holl gytundebau â rhanddeiliaid yn nodi'n glir y gofynion o ran adrodd ac uwchgyfeirio.

Derbyn

Y cyfnod pan gafwyd y dyfeisiau System Ynni Deallus, a nodwyd fel rhai nad oeddent yn gweithio mwyach, oedd rhwng mis Mai 2022 a mis Chwefror 2023.

Cost gyffredinol y contract a oedd yn gysylltiedig â chaffael y pecyn System Ynni Deallus ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio oedd £14.06 miliwn.

Cafodd canfyddiadau ac allbynnau y broses o ystyried gwersi a ddysgwyd eu lledaenu gan swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru i'r cyflenwr a'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Yn dilyn hynny, rhoddwyd gofynion o ran adrodd ac uwchgyfeirio ar waith.

Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gweithredol wythnosol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r cyflenwr i hwyluso adrodd a thryloywder, ochr yn ochr â chyfarfodydd misol o fwrdd y rhaglen i sicrhau bod proses uwchgyfeirio yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio mecanweithiau fel adrodd ar y gofrestr risg.

Argymhelliad 6.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r newidiadau a wnaeth i Lywodraeth Cymru 2025 pan, o ystyried pwysau cyllidebol, y newidiodd ffocws y rhaglen. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am oblygiadau'r newidiadau i amcanion cyffredinol y rhaglen, a'r effaith gysylltiedig ar y sefydliad ei hun. At hynny, dylai ddarparu gwybodaeth am y chwe maes allweddol y mae am fynd i'r afael â nhw o dan raglen 2025 Llywodraeth Cymru, a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r tair ffrwd waith, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau ar gyfer dyfodol y rhaglen y tu hwnt i 2025.

Derbyn

Pan lansiwyd LlC2025, ein huchelgais oedd adeiladu sefydliad sy'n addas i'r dyfodol, un a allai ymateb i anghenion Cymru ar ôl y pandemig ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Cafodd y cam cychwynnol ei lywio gan sgyrsiau eang gyda staff, gan arwain at fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd a chyfres o newidiadau, o gynlluniau peilot gweithio'n glyfrach i arloesi digidol ac ad-drefnu'r ystad.

Pan wnaethom newid ffocws LlC2025 i greu tair ffrwd waith mewn ymateb i bwysau cyllidebol, nid mater o newid blaenoriaethau ar bapur yn unig ydoedd, roedd hefyd yn golygu ailystyried beth y gallem ei gyflawni yn realistig a sut y byddem yn cyrraedd yno. Roedd yr uchelgais wreiddiol yn eang, ond roedd y cyfyngiadau ariannol yn golygu bod rhaid inni wneud penderfyniadau o ran oedi neu leihau mentrau, ac fe wnaethom ganolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd lle gallem gael yr effaith fwyaf gyda'r adnoddau a oedd ar gael. Yn anochel, newidiodd hyn ffurf ein hamcanion: yn hytrach na mynd ar drywydd pob gwelliant ar unwaith, fe wnaethom ganolbwyntio ar yr hyn a oedd yn hanfodol ar gyfer gwydnwch sefydliadol a gwerth cyhoeddus.

Cynlluniwyd pob un o'r tair ffrwd waith i fynd i'r afael â'r heriau sefydliadol mwyaf dybryd.

- Roedd Newid Maint yn ymwneud â byw o fewn yr adnoddau sydd gennym. Fe wnaethom dynhau prosesau recriwtio, adolygu contractau dros dro, a chynnal cynllun ymadael gwirfoddol. Nid oedd y rhain yn benderfyniadau hawdd, ac ni wnaethom eu cymryd yn ysgafn. Y nod oedd diogelu swyddi lle bo'n bosibl, ond hefyd sicrhau y gallem fantoli'r cyfrifon heb gyfaddawdu ar ein gallu i gyflawni.

- Roedd Newid Lleoedd yn edrych ar ein hystad, gan ddod o hyd i ffyrdd o leihau costau gweithredol a gwneud gwell defnydd o'n hadeiladau. Fe

wnaethom gau swyddfeydd, croesawu tenantiaid newydd, ac ailystyried sut y gallai lleoedd gefnogi cydweithio ar draws y sector cyhoeddus. Roedd yr arbedion yn real, ond felly hefyd yr heriau - o symud pobl i newid arferion, a gwneud yn siŵr nad oedd neb yn cael ei adael ar ôl yn y broses.

- Dechreuodd **Newid Siâp** y broses o'n helpu i ddeall sut roedd ein staff a'n hadnoddau yn cyd-fynd â blaenoriaethau gweinidogol a sut beth yw sefydliad gwydn, sy'n addas i'r dyfodol.

I'r sefydliad ei hun, mae'r newidiadau wedi bod yn sylweddol. Rydym wedi gorfod addasu'n gyflym, sydd wedi golygu weithiau ollwng brosiectau nad oeddem yn gallu sicrhau adnoddau priodol ar eu cyfer, ac weithiau adleoli pobl i flaenoriaethau newydd.

Mae timau wedi gorfod gweithio mewn ffordd wahanol, rhannu cyfrifoldebau, dysgu tasgau newydd, a dod o hyd i ffyrdd o gynnal morâl drwy ansicrwydd. Bu pwyslais gwirioneddol ar dryloywder a chyfathrebu gonest, gyda staff a chyda'n partneriaid. Er bod yr addasiadau hyn wedi bod yn heriol, maent hefyd wedi ein gwneud yn fwy ystwyth a'n helpu i ganolbwyntio.

Wrth inni symud i Gam Tri, fe wnaethom fireinio ein ffocws. Ymhlith y chwe maes allweddol rydym yn mynd i'r afael â nhw nawr, mae:
- Sicrhau ein bod yn barod ar gyfer diwygio'r Senedd
- Gwella ein prosesau, ein systemau a'n data
- Creu lle gwell i bob un ohonom weithio
- Bod yn sefydliad sy'n galluogi newid ac yn annog gwelliant parhaus
- Ysgogi effeithlonrwydd, gwella llywodraethiant a grymuso
- Optimeiddio ein hystad

Mae pob un o'r meysydd hyn yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr ac yn cael ei ategu gan ymgysylltu parhaus â staff. Mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng y chwe blaenoriaeth a'r tair ffrwd waith. Darparodd Newid Maint, Newid Lleoedd a Newid Siâp y sylfaen; diben y chwe maes yw adeiladu ar y sylfaen honno. Er enghraifft, dechreuodd y gwaith ar optimeiddio'r ystad gyda Newid Lleoedd, ac mae'r gwaith hwnnw bellach yn bwydo i nodau ehangach o ran cydweithio ac effeithlonrwydd. Dechreuodd ein hymdrechion i sicrhau gweithlu o'r maint cywir gyda Newid Maint, ac mae'r ymdrechion hynny'n parhau wrth inni baratoi ar gyfer gofynion Diwygio'r Senedd.

Wrth edrych y tu hwnt i 2025, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â'r rhaglen i ben ac ystyried bod ei hamcanion wedi'u cyflawni. Mae'r profiad o gyflawni LlC2025 wedi tanlinellu pwysigrwydd cynnwys hyblygrwydd yn ein

cynlluniau, fel ein bod mewn sefyllfa well i ymateb i amgylchiadau newidiol a heriau sy'n dod i'r amlwg.

Mae ein dull o gyfathrebu mewn ffordd agored a thryloyw wedi ailddatgan pwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth, fel y gwelir yn ein sgoriau yn Arolwg Pobl 2024 a ddangosodd welliannau ym mhob maes bron. Mae cefnogi staff drwy gyfnodau o newid wedi bod yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i gadw llesiant ac ymgysylltu mewn cof bob amser wrth inni symud ymlaen.

Mae cydweithio ar draws y sector cyhoeddus, fel gofod swyddfa a rennir a chydweithredu digidol, wedi datgloi cyfleoedd ac effeithlonrwydd newydd, a byddwn yn parhau i chwilio am atebion a rennir lle bynnag y bo modd. Yn anad dim, rydym yn cydnabod bod gwella yn broses barhaus, nid yn un digwyddiad unigol. Wrth inni edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i fireinio ein prosesau a'n systemau, gan groesawu arloesi, ac adrodd yn onest ar ein cynnydd, fel bod ein cynlluniau yn parhau i fod yn seiliedig ar realiti ac yn gwasanaethu anghenion Cymru o ddifrif.

Argymhelliad 7.

Rydym yn argymell, wrth symud ymlaen, fod Llywodraeth Cymru yn nodi sylwadau clir a chytbwys yn ei chyfrifon ynghylch cyflawniad yn erbyn ei rhaglen newid. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhaglen, gan esbonio pam mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud, a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni'r rhaglen a'r amcanion ar ei chyfer.

Derbyn

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r rhaglen newid wedi bod yn sbardun canolog i drawsnewid sefydliadol, ac mae ei hesblygiad wedi'i lywio gan uchelgais ac angenrheidrwydd. Wrth inni symud drwy bob cam, o ymgysylltu i ddechrau, newid y ffocws mewn ymateb i bwysau cyllidebol, a nawr paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd, rydym wedi dysgu bod tryloywder ynglŷn â'n taith yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer atebolrwydd ond hefyd ar gyfer dysgu sefydliadol gwirioneddol.

Mewn cyfrifon yn y dyfodol, byddwn yn darparu sylwadau mwy manwl a chytbwys ar gyflawni LlC2025 a'r hyn sy'n ei dilyn. Bydd hyn yn cynnwys darlun clir o unrhyw newidiadau sylweddol a wneir, y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau hynny, a'r goblygiadau ymarferol i'n hamcanion a'n gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Rydym wedi ymrwymo i adrodd nid yn unig ar yr hyn sydd wedi mynd yn dda, ond hefyd ar yr heriau a'r anawsterau a wynebwyd ar hyd y ffordd. Drwy wneud hynny, rydym yn anelu at roi darlun llawnach o'r broses newid, gan gynnwys y rhesymeg dros benderfyniadau a'r effaith ar staff, partneriaid, a'r cyhoedd. Ein bwriad yw sicrhau bod y cyfrifon yn adlewyrchu'r gwir stori y tu ôl i newid sefydliadol: un sy'n onest am gymhlethdod, yn agored am risgiau, ac yn glir am y canlyniadau i Gymru.

Mae LlC2025 wedi dangos inni mai anaml y bydd newid yn digwydd mewn llinell syth, a bod angen ystyried ac addasu'n barhaus er mwyn gwneud cynnydd ystyron. Byddwn yn parhau i roi'r gwersi hyn ar waith, gan wneud yn siŵr bod ein hadroddiadau yn onest, yn benodol, ac yn wirioneddol ddefnyddiol ar gyfer craffu a gwella.

Argymhelliad 8.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y rolau a gyflawnwyd gan staff a adawodd y sefydliad o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a sut y cefnogodd y cynllun hwnnw unrhyw gamau ar gyfer ailgynllunio'r gweithlu y tu hwnt i leihau'r gyllideb staffio yn unig.

Derbyn

Roedd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn un o'r dulliau a ddefnyddiwyd i helpu i reoli'r pwysau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. LlC2025 yw'r cyfrwng ar gyfer newid a gwelliant parhaus, a thrwyddi ceir ffocws parhaus a chydgysylltiedig ar gynllunio'r gweithlu yn strategol ar lefel sefydliadol, grŵp a phroffesiwn. Roedd y rhaglen LlC2025 symlach, â ffocws newydd, fel y nodir uchod, yn cynnwys tair ffrwd waith ryng-gysylltiedig, Newid Maint, Newid Lleoedd, a Newid Siâp.

Mae'r ffrwd waith Newid Maint wedi helpu i leihau'r costau staffio cyffredinol a datblygu cynllun gweithlu fforddiadwy sy'n golygu y gall y sefydliad weithredu o fewn ei gyllideb. Fe wnaeth hynny wrth gael ei llywio hefyd gan Werthoedd LlC, blaenoriaethu tegwch, pobl a swyddi cyn belled â phosibl, a chyd-fynd â'r gwaith i Newid Siâp a Newid Lleoedd.

Cynlluniwyd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol i gefnogi datblygiad sefydliadol, gyda meini prawf wedi'u pwysoli rhag colli sgiliau a phrofiad sy'n hanfodol ar gyfer y dyfodol, er enghraifft mewn meysydd fel Digidol, Data a Thechnoleg, Gwasanaethau Cyfreithiol, Caffael, Economeg a Chyllid, a lle rydym wedi recriwtio unigolion am eu gwybodaeth arbenigol neu eu harbenigedd mewn rhai meysydd.

Cefnogodd y Cynllun hwn gamau ar gyfer ailgynllunio'r gweithlu y tu hwnt i leihau'r gyllideb staffio drwy sawl dull. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- Dileu swydd a oedd yn cael ei gwneud gan ymgeisydd a oedd yn cael ei ryddhau
- Rhyddhau ymgeisydd ac aildrefnu gweithgarwch a gallu (naill ai yn y Gyfarwyddiaeth neu'r Grŵp)
- Rhyddhau ymgeisydd a recriwtio (dim arbediad uniongyrchol i'r grŵp ond arbediad ehangach posibl i'r sefydliad wedi'i nodi)

Ar y cyfan, roedd rhyddhau ymgeiswyr yn golygu dileu swydd yn uniongyrchol gan arwain at arbediad. Pan oedd ymgeisydd mewn swydd na ellid ei dileu a bod angen gwneud arbedion amgen mewn mannau eraill, cafodd gwaith cynllunio sefydliadol ei wneud, ym mhob achos, i gynorthwyo'r newidiadau hyn i strwythurau ac ailgynllunio rolau lle bo hynny'n briodol.

Rydym yn fodlon rhannu gwybodaeth fanylach a byddwn yn cynnwys y cyd-destun ehangach yn yr ymateb hwnnw. Mae hyn oherwydd bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rolau yn unig yn annhebygol o fod o ddefnydd heb gyd-destun, gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o ofynion cynllunio rôl.

Wedi hynny, cynhaliwyd nifer o ymarferion ailgynllunio'r gweithlu ar raddfa fwy, ochr yn ochr â'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gynnwys ailddiffinio portffolios o fewn Grwpiau ac adolygiadau sefydliadol dan arweiniad Proffesiwn i ddefnyddio 'teuluoedd swyddi' ymhellach, h.y. confensiynau enwi a chyfrifoldebau cyson o fewn meysydd gwaith tebyg. Byddwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith perthnasol yn y maes hwn, yn ein hymateb sydd i'w ddarparu cyn diwedd mis Tachwedd 2025.

Argymhelliad 9.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa ffactorau a lywiodd ei phenderfyniadau ynghylch ei gofynion sgiliau presennol, a rhai'r dyfodol, fel rhan o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol diweddar.

Derbyn

Fel y nodwyd uchod, nod y Cynllun Ymadael Gwirfoddol oedd sicrhau bod swyddi yn cael eu dileu o strwythurau sefydliadol, nad oedd pobl â sgiliau allweddol y mae angen i'r sefydliad eu cynnal yn gadael, ac na fyddai unrhyw ymadawiad y cytunwyd arno yn cael effaith andwyol ar barhad busnes.

Roedd nifer o ffactorau yn llywio'r argymhellion a wnaed gan reolwyr llinell, Dirprwy Gyfarwyddwyr a/neu Benaethiaid Proffeswn perthnasol, a ystyriwyd wedyn ymhellach ar lefel Grŵp cyn i Banel LlC ymgynnull i lywio'r penderfyniadau a wnaethpwyd.

Roedd penderfyniadau yn seiliedig ar ofynion sgiliau yn awr ac yn y dyfodol, ac wedi'u llywio gan waith i gynllunio'r gweithlu yn strategol dan arweiniad Grŵp, gan gynnwys; sgiliau allweddol ymgeisydd ac a ellid dod o hyd i'r sgiliau hyn mewn mannau eraill yn y sefydliad, p'un a oedd sgiliau nad oedd y sefydliad am eu colli neu sgiliau nad oes eu hangen mwyach. Er mwyn rheoli disgwyliadau, cyfathrebwyd yn glir i ddarpar ymgeiswyr o'r cychwyn cyntaf bod ceisiadau gan staff â sgiliau hanfodol yn debygol o fod yn aflwyddiannus.

Wrth asesu sgiliau allweddol, ystyriwyd meysydd lle mae llai o angen am sgiliau penodol a allai fod wedi bod yn 'newydd' i'r sefydliad ar un adeg. Nodwyd rhai meysydd lle mae angen ymdrechion i barhau i dyfu a datblygu yn fewnol, ac eraill lle mai dim ond drwy 'brynu i mewn' arbenigedd y gellid sicrhau'r set sgiliau. Roedd sgorio yn seiliedig ar hyn ac yn cyd-fynd â lle mae sgiliau yn rhan o'n Proffesiynau. Sefydlwyd yn glir hefyd, pe bai swydd yr ymgeisydd yn rhan o 'deulu swyddi' ehangach, y byddai'n debygol y byddai eraill o fewn y sefydliad sydd hefyd yn meddu ar wybodaeth a sgiliau cyfatebol i ymgymryd â'r rôl neu i gael eu huwchsgilio i wneud hynny. Ystyriwyd hefyd yr effaith ar barhad busnes, asesiad risg a pha mor hawdd fyddai dod o hyd i rywun arall i wneud y swyddi.

Argymhelliad 10.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa asesiad ehangach y mae wedi'i gynnal ynghylch y rolau o fewn ei sefydliad nad oes eu hangen.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd asesu'n rheolaidd y cysondeb rhwng ei gweithlu ac anghenion esblygol y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn asesiad parhaus fel rhan o'n dull o gynllunio'r gweithlu yn strategol lle rydym yn adolygu swyddogaethau a rolau ar draws y sefydliad i sicrhau eu bod yn fforddiadwy (gan ddefnyddio ein fframwaith dirprwyadau i sicrhau atebolrwydd), yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sefydliadol.

Nid yw'r asesiad parhaus a rheolaidd hwn yn ymwneud â nodi rolau dros ben yn unig, mae hefyd yn golygu deall sut mae'n rhaid i rolau esblygu i fodloni gofynion yn y dyfodol - yn enwedig mewn meysydd sy'n ganolog i fusnes y llywodraeth fel datblygu polisi, swyddogaethau deddfwriaethol, a'r ddibyniaeth gynyddol ar ddigidol, data a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn gwreiddio gwaith i gynllunio'r gweithlu ar draws adrannau i rag-weld anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol, nodi bylchau posibl, a sicrhau bod gennym y galluoedd cywir ar waith. Mae hyn yn cynnwys cynllunio senarios a sganio'r gorwel i baratoi ar gyfer effeithiau ar y gweithlu, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chyfleoedd ar gyfer awtomeiddio, dadansoddi gyda chymorth deallusrwydd artiffisial, a seilwaith digidol gwell.

Yn yr achosion hynny pan fo rolau nad oes eu hangen ar y sefydliad yn y dyfodol, byddwn yn ystyried adleoli, ailsgilio ac ailgynllunio rolau i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol yn y lle cyntaf.

Argymhelliad 11.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa bryd y mae'n disgwyl cwblhau'r map ffordd systemau corfforaethol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd wedi gwneud hynny.

Derbyn

Cwblhawyd y map ffordd Systemau Corfforaethol ar 31 Mawrth 2025. Bydd y map hwn yn parhau i fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i'w defnyddio a'i chynnal i sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol a phrosesau sganio'r gorwel wrth gynllunio i uwchraddio a newid offer TG yn y dyfodol.

Argymhelliad 12.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am ei hadolygiad o'i threfniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys y cwmpas a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Derbyn

Fe wnaethom gynnal adolygiad ysgafn o'n trefniadau rheoli perfformiad gan ystyried gwybodaeth a gafwyd o'r Arolwg Pobl am amlder, ffocws a gwerth sgyrsiau rheoli perfformiad, ac arferion ehangach ar draws Gwasanaeth Sifil y DU.

Fe wnaethom gadw set o egwyddorion craidd sylfaenol i alluogi perfformiad uchel, gan gynnwys:

- Ffocws parhaus ar sgyrsiau rheolaidd, sydd wedi'u seilio ar gryfderau ac sy'n defnyddio dulliau annog i gefnogi unigolion i fod ar eu gorau.
- Cadw'r categorïau sgorio perfformiad canlynol: Llwyddo, Cryfhau a Thanberfformio.
- Gwneud cynllun datblygu ysgrifenedig yn ofynnol i bawb.
- Dim dosbarthu gorfodol na chwotâu sgorio.
- Pwyslais ar gymorth i ddatblygu gallu rheolwyr llinell.

Fe wnaethom nifer o addasiadau i gryfhau prosesau rheoli perfformiad a sgyrsiau, gan gynnwys:

- Addasu themâu sgyrsiau rheolaidd i gynnwys llesiant, perfformiad, blaenoriaethau, dysgu a datblygiad a gwerthoedd. Fe wnaeth ychwanegu ffocws clir ar 'werthoedd' gefnogi ein gwaith i ymgorffori'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau LlC2025 a gyhoeddwyd.
- cryfhau'r ffocws mewn canllawiau ar asesu "beth" a "sut" rydym yn perfformio a chyflawni, gan sicrhau cysylltiad cryf â threfniadau sefydledig Swyddfa'r Cabinet ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil.
- darparu ffurflen newydd, syml i gofnodi sgyrsiau i annog mwy o gysondeb.
- Cynnal ffocws ar flaenoriaethau tymor byr i alluogi ffordd fwy ystwyth o weithio, ond sicrhau cysylltiad cryfach rhwng ein canllawiau a chyfrifoldebau rôl craidd.
- Ei gwneud yn ofynnol i sgoriau perfformiad gael eu diweddaru ar ein system gorfforaethol yn flynyddol, o leiaf, oni bai bod newid yn gynt.
- Mae rhagor o fanylion am gyfleoedd dysgu a datblygu ar gael.

- Canllawiau ychwanegol i annog pawb i gael amcan sy'n canolbwyntio ar gyfraniad corfforaethol, y tu hwnt i'w hamcanion a'u blaenoriaethau arferol.
- Pwyslais cryfach ar gefnogi gostyngiad mewn perfformiad, gan gynnwys enghreifftiau o gymorth sydd ar gael, a gosod amserlen gynnar ar gyfer ymyriadau (a newidiwyd o chwe mis i dri mis).

Dangosodd ein canfyddiadau o Arolwg Pobl 2024 ymatebion cymharol gadarnhaol ar draws dangosyddion rheoli perfformiad.  Yn benodol, roedd ymatebion ynghylch cydweithwyr sy'n teimlo eu bod wedi'u grymuso gan reolwyr llinell, a sgyrsiau un i un sy'n helpu cydweithwyr i gyflawni eu potensial, 6% yn uwch na meincnod ehangach y Gwasanaeth Sifil. Fe wnaeth 72% o gydweithwyr ddweud eu bod yn cael adborth rheolaidd ar eu perfformiad, 69% ddweud bod yr adborth hwnnw'n eu helpu i wella eu perfformiad, a 75% ddweud eu bod yn credu bod eu perfformiad yn cael ei werthuso'n deg.


Argymhelliad 13.

**Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu data ar gyfer nifer yr achosion o absenoldeb staff tymor byr oherwydd problemau iechyd meddwl, a darparu data tueddiadau ar gyfer absenoldebau tymor byr a thymor hir oherwydd problemau iechyd meddwl, i ddangos sut y gallai hyn fod wedi newid dros amser.**

Derbyn

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr achosion o absenoldeb staff tymor byr oherwydd problemau iechyd meddwl, ochr yn ochr â data tueddiadau ar gyfer absenoldebau tymor byr a hirdymor. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i asesu sut mae patrymau absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl wedi newid dros amser yng ngweithlu Llywodraeth Cymru.

Yn yr ymateb hwn, cyflwynir absenoldeb oherwydd problemau iechyd meddwl (gan gynnwys straen) ar ffurf nifer cyfartalog y dyddiadau a gollwyd. Mae hyn yn wahanol i'r ffordd y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno yn y cyfrifon blynyddol, sy'n defnyddio cyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd mewn cyfnod o 12 mis (yn unol â datgeliadau cyfrifon absenoldeb salwch presennol). Mae nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd yn fesur a ffefrir ar gyfer edrych ar dueddiadau o ran absenoldeb, gan ei fod yn cyfrif am newidiadau yn nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn dros amser, ac felly yn darparu mesur mwy cyson o absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.



Ar y cyfan, mae lefelau absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl wedi cynyddu dros amser, er eu bod wedi amrywio. Gwelwyd y lefelau isaf o absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020 (nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd o 1.84) a'r lefelau uchaf yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025 (nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd o 3.00). Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn lefelau absenoldeb hirdymor sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl (a oedd hefyd ar eu hisaf yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020, sef nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd o 1.27 ac ar eu huchaf yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025, sef nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd o 2.19). Bu llai o gynnydd yn lefelau absenoldeb tymor byr sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, sef nifer cyfartalog y dyddiadau a gollwyd o 0.46 yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019. Gwelwyd y lefelau uchaf yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2024, yn ogystal â'r flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2024, sef nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd o 0.84.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder wrth ddeall effaith iechyd meddwl ar lesiant staff a gallu sefydliadol. Mae monitro tueddiadau o ran absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn caniatáu inni nodi materion sy'n dod i'r amlwg, gwerthuso effeithiolrwydd mecanweithiau cymorth presennol, a llywio datblygiad polisïau yn y dyfodol sy'n anelu at wella llesiant staff.

Mae ein tîm cynghori arbenigol ar achosion yr adran adnoddau dynol yn darparu data a dadansoddiadau rheolaidd i Gyfarwyddwyr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr ar y sefyllfa o ran absenoldeb gyda'u Cyfarwyddiaethau a'u His-adrannau, gyda data cymharu sy'n rhychwantu'r flwyddyn flaenorol ar gyfer eu meysydd eu hunain a Llywodraeth Cymru gyfan. Mae hyn yn seiliedig nid yn unig ar ddata a gofnodwyd yn ein systemau adnoddau dynol, ond hefyd ar wybodaeth amser real a gafwyd drwy reolwyr llinell a gweithwyr yn ymgysylltu â'n gweithdrefnau absenoldeb. Mae hyn wedi ein galluogi i ddefnyddio ymyriadau fel sesiynau ymwybyddiaeth llesiant pwrpasol mewn meysydd lle gwelwyd cynnydd mewn absenoldebau iechyd meddwl.

Yn unol â'n hymrwymiad ehangach i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl cadarnhaol yn y gweithle, mae sesiynau ymwybyddiaeth llesiant ledled Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno sy'n edrych yn fanylach ar y mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a rhaglenni cymorth i weithwyr sydd ar gael i bob aelod o staff. Rydym hefyd yn adolygu'r cymorth a gynigir gan ein Cynghreiriaid Iechyd Meddwl sydd wedi'u hyfforddi'n llawn.

Fel y nodir uchod, bydd y Cyfrifon yn cynnwys dadansoddiad o absenoldeb tymor byr a hirdymor oherwydd problemau iechyd meddwl o 2024-25 ymlaen, a bydd gwybodaeth am dueddiadau o'r pwynt hwnnw ymlaen yn cael ei datblygu o fewn cynnwys adrodd safonol y Cyfrifon ar absenoldebau blynyddol.

Argymhelliad 14.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am yr achos o dorri data yn system Pobl, a pha fath o ddata y gallai rheolwyr llinell ei weld, na ddylent fod wedi gallu ei weld.

Derbyn

Aseswyd y digwyddiad fel achos o dorri data personol risg uchel ac fe'i adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn yr amserlen ofynnol, sef 72 awr. Daeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r casgliad nad oedd angen unrhyw gamau pellach ac rydym wedi rhoi trefniadau llywodraethiant a mesurau lliniaru priodol ar waith.

Canlyniad yr achos o dorri data oedd bod meysydd sydd fel arfer wedi'u cyfyngu i'r adan adnoddau dynol ar gael i reolwyr llinell. Roedd hyn yn cynnwys manylion fel hanes addysg yr unigolyn, nifer y dibynyddion, ethnigrwydd, iaith frodorol, statws o ran bod yn gyn-aelod o'r lluoedd arfog, gwybodaeth am ddinasyddiaeth a manylion gwlad enedigol yr unigolyn a'i rieni.

Argymhelliad 15.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu’r modd y cyflwynwyd cyflog Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn ei Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024 ac yn sicrhau, yn y dyfodol, nad yw'r wybodaeth yn gamarweiniol, a'i bod yn gyson â'r wybodaeth am daliadau yn y cyfrifon blynyddol.

Derbyn

Wrth adolygu'r modd y cyflwynwyd gwybodaeth ar gyfer yr amgylchiad unigol hwn, byddai triniaeth ddatgelu fwy perthnasol yn debyg i'r driniaeth a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy'n ymuno ar ganol blwyddyn, lle defnyddir troednodyn yn egluro newid i statws cyflogaeth a phatrwm gweithio.

Bydd sylw ychwanegol yn cael ei roi wrth wneud cyhoeddiadau yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r datgeliadau yn Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, at ddibenion cysondeb a thryloywder.

Argymhelliad 16.

Rydym yn croesawu'r datgeliadau ychwanegol am risgiau yng Nghyfrifon 2023-24 Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r wybodaeth mewn ffordd glir ac atyniadol. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys, yn ei chyfrifon blynyddol, sylwadau am y risgiau newydd a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn, ac yn sicrhau ei bod yn dilyn arfer gorau wrth adrodd ar risgiau.

Derbyn

Yng Nghyfrifon 2024-25, rydym wedi parhau i adolygu a gwella ein datgeliadau ar risg. Yng Nghyfrifon 2025-26, byddwn yn darparu sylwadau pellach ar risgiau newydd a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod y bydd angen inni gydbwyso'r angen i fod yn dryloyw yn ein hadroddiadau â'r angen i ddiogelu gwybodaeth sensitif.

Argymhelliad 17.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam y mae ei phenderfyniad i beidio ag ailgychwyn ei rhaglen o adolygiadau teilwredig yn ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i atal ei rhaglen gyfatebol.

Derbyn

Tynnodd Llywodraeth y DU "Adolygiadau teilwredig: canllawiau ar adolygiadau o gyrff cyhoeddus"[1] yn ôl ar 15 Awst 2023, gan gyhoeddi "Canllawiau ar gynnal Adolygiadau o Gyrff Cyhoeddus"[2] yn eu lle.  Nododd mai dim ond 34% o'r Adolygiadau Teilwredig arfaethedig o gyrff cyhoeddus y DU a gafodd eu cwblhau rhwng 2016 a 2020, canran a allai fod yn is ar gyfer y blynyddoedd ers 2020, er gwaethaf rhiant-adrannau yn blaenoriaethu eu cyrff.  O ganlyniad, mae canllawiau newydd Llywodraeth y DU yn seiliedig ar hunanasesu a dull mwy hyblyg a chymesur o gwblhau adolygiadau yn rheolaidd, yn seiliedig ar lywodraethiant, atebolrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

O ystyried y newid cyfeiriad hwn gan Lywodraeth y DU, a'r anawsterau yr oedd Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus yn eu hwynebu wrth gwblhau Adolygiadau Teilwredig yn gyflym ac yn effeithiol, penderfynwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull tebyg er mwyn bod yn fwy hyblyg a chwblhau adolygiadau yn gyflymach.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/tailored-reviews-of-public-bodies-guidance

[2] https://www.gov.uk/government/publications/public-bodies-review-programme/guidance-on-the-undertaking-of-reviews-of-public-bodies

Argymhelliad 18.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Pwyllgor hwn pan fydd unrhyw werthiant o'r cyfranddaliadau wedi'i gwblhau, gan gynnwys manylion lefel yr enillion, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniant prydlesu wrth i unrhyw denant gael ei ganfod. Gofynnwn i unrhyw ddiweddariadau gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r lefel ddisgwyliedig o incwm o unrhyw brydles wedi'i sicrhau.

Derbyn

Rhoddwyd yr eiddo wedi'i adnewyddu (a elwir bellach yn Tech Valleys House), a oedd wedi denu diddordeb TVR Automotive Limited yn y gorffennol, ar y farchnad agored gydag asiantau penodedig ym mis Mawrth 2024.

Ers mis Mawrth 2024, mae'r eiddo mawr hwn wedi denu rhwng 10 a 15 o ymholiadau gyda thua 3-4 o bartïon wedi mynd ati i drafod ymhellach. Ar hyn o bryd, mae ein hasiantau mewn trafodaethau gyda dau fusnes mawr, ac mae telerau prydles yn cael eu trafod gydag un o'r partïon. Mae trafodaethau'n parhau.

Ym mis Awst 2024, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru gymeradwyo gwerthu'r holl gyfranddaliadau a ddelir gan Lywodraeth Cymru yn TVR Automotive Limited am 'Werth Marchnad Teg', yn unol â'r Cytundeb Cyfranddalwyr.

Nid yw'r gwaith o sefydlu'r Gwerth Marchnad Teg yn syml. Mae TVRA yn dal i fod yn endid cyn refeniw ac iddo ychydig iawn o werth o ran asedau y tu hwnt i frandio ac nid oes fawr ddim cymariaethau diwydiant na chynllun busnes nad yw wedi cael ei gyflawni eto. Mae'r gwerthiant eto i'w gwblhau.

# 3. Atodiad 1 – Ymatebion Atodol

Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

47. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y taliad arbennig i gyrraedd cytundebau setliad cytundebol ar gyfer prosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth amdano. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r taliad arbennig o £13.1m (heb gynnwys TAW) i gyrraedd setliad cytundebol ar gyfer prosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, o'i gymharu â gwerth cyffredinol y cynlluniau ac a oedd yn cynrychioli setliad wedi'i negodi islaw cyfanswm gwerth yr hawliadau a gyflwynwyd gan y contractwyr.

Ymateb

Mae rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu'n gyfrinachol ar wahân gan ei bod yn cynnwys materion sy'n gyfrinachol yn fasnachol.

Banc Datblygu Cymru

127. Rydym yn croesawu cyhoeddi'r Adroddiad Alldro mewn digon o amser i'r Pwyllgor gynnal gwaith craffu arno, ochr yn ochr â'r cyfrifon blynyddol. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod pam y gwnaeth Banc Datblygu Cymru danwario yn erbyn ei gyllideb ariannol DEL. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y mater hwn, ac yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth.

128. Yn unol â'i hymrwymiad i wneud hynny, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, gyda sylwadau manwl, pam y cofnododd Banc Datblygu Cymru danwariant o £27.1m yn erbyn ei gyllideb ariannol Terfyn Gwariant Adrannol.

Ymateb

Mae'r ffigur o £27.1 miliwn y cyfeirir ato gan y Pwyllgor fel tanwariant yn erbyn y gyllideb Adnoddau Cyllidol o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn ganlyniad i gofnodi'r credyd o £26.1 miliwn sy'n ymwneud â sefyllfa gwariant refeniw net Banc Datblygu Cymru ar gyfer y flwyddyn. Roedd hynny'n ganlyniad i raddau helaeth i'r ffaith bod y llog a'r incwm arall a enillwyd yn ystod y cyfnod yn mwy na gwrthbwyso costau gweithredu'r cwmni. Roedd y Gyllideb Adnoddau Cyllidol a gyhoeddwyd yn cynnwys dyraniad penodol o £1.0m ar gyfer y Cynllun

Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn unig lle bu gwariant cyfyngedig yn ystod y flwyddyn.

## Grantiau Busnes Covid-19

**173. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, a chynnwys gwybodaeth yn ei gyfrifon, am lefel y twyll a'r gwallau yn ei grantiau busnes COVID-19 wedi i Lywodraeth Cymru orffen monitro ar ôl cwblhau. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am nifer a gwerth cyffredinol grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd y gwnaeth ddyfarnu, neu y mae'n mynd i ddyfarnu, hysbysiad ffurfiol ar eu cyfer, er mwyn adennill grant, ar ôl peidio â chael y wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan y derbynnydd.**

### Ymateb

Crynodeb

Dechreuodd y Gronfa Cadernid Economaidd ym mis Ebrill 2020 mewn ymateb i Bandemig Covid 19. Roedd wyth cam o gymorth grant i fusnesau. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn un pwyllog a chynhaliwyd llawer o wiriadau cymhwysedd, twyll a sicrwydd ymlaen llaw i sicrhau bod y risg mor isel â phosibl ac felly'n is na chynlluniau eraill a gynhaliwyd yn y DU. Roedd ei hymateb hefyd yn wahanol iawn i ymateb Llywodraeth y DU ac roedd y cynlluniau yn atodol i gynlluniau'r DU, nid yn eu lle. Felly, er bod tebygrwydd, ni ddylid eu cymharu yn yr un modd.

Covid 19 – Strategaeth Ymadael y Gronfa Cadernid Economaidd

Cytunodd grŵp goruchwylio'r Gronfa Cadernid Economaidd a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar Strategaeth Ymadael y Gronfa ym mis Chwefror 2025.

Strategaeth Ymadael

Mewn cytundeb â Grŵp Goruchwylio'r Gronfa a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, oherwydd llai o enillion a threigl amser (pum mlynedd ar ôl cam 1 y Gronfa), rhoddodd y tîm y gorau i ymgymryd ag unrhyw waith pellach ar fonitro ar ôl cwblhau o ddiwedd mis Mawrth 2025 ymlaen a throsglwyddwyd y Gronfa i'r swyddogaeth busnes fel arfer.

Mae gennym ddigon o dystiolaeth i gefnogi'r strategaeth ymadael hon ac i gefnogi'r holl waith y mae'r tîm monitro ar ôl cwblhau wedi'i wneud mewn perthynas â chysylltu â busnesau, a gweithio gyda nhw, i ddarparu'r wybodaeth berthnasol.

Camau Ymadael gan y tîm monitro ar ôl cwblhau

- Cysylltwyd â phob busnes o leiaf deirgwaith am wybodaeth sydd eto i ddod i law. Ni fydd unrhyw waith pellach yn cael ei wneud i fynd ar drywydd y busnesau sydd heb ymateb neu sydd wedi rhoi'r gorau i ryngweithio â thîm monitro ar ôl cwblhau Llywodraeth Cymru.
- Anfonwyd ein llythyr ffurfiol 'torri amodau' at bob achos, sy'n nodi, yn dilyn pob ymdrech i gael yr wybodaeth fonitro angenrheidiol, y bydd anfoneb yn cael ei hanfon os na cheir ymateb ac na ddarperir yr wybodaeth sydd eto i ddod i law.
- Bydd y tîm monitro ar ôl cwblhau yn cyflwyno'r holl wybodaeth fusnes i Hwb Diwydrwydd Dyladwy y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fel y gall rheolwyr grantiau eraill wirio'r wybodaeth hon yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.
- Bydd anfonebau yn cael eu codi gan y tîm monitro ar ôl cwblhau, a fydd yn parhau i gysylltu â'r tîm dyledion canolog. Bydd y rhain ar system gyllid Llywodraeth Cymru a elwir yn SAP.
- Ni fydd unrhyw broses casglu dyledion bellach yn cael ei chynnal gan y tîm dyledion canolog o ystyried bod digon o amser wedi mynd heibio, a bod pob busnes eisoes wedi cael llawer o gyfleoedd i ymateb yn unol â'r broses honno.
- Bydd y tîm monitro ar ôl cwblhau yn dod â'r gwaith monitro ar ôl cwblhau i ben yn ffurfiol erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Achosion Monitro ar Ôl Cwblhau sy'n Weddill - lle nad yw ymgeiswyr wedi darparu tystiolaeth i fodloni telerau eu cynnig

Fel y nodir uchod, o fewn y strategaeth ymadael, cyrhaeddodd yr achosion materol nad ydynt wedi'u cwblhau lefel lle byddai'r gweithgarwch yn cael ei gynnwys fel rhan o'n swyddogaeth busnes fel arfer, yn hytrach nag fel uned annibynnol. Er bod gweithgarwch wedi parhau drwy gydol y flwyddyn, mae'r broses bron â dod i ben yn llwyr gyda'r tîm yn gweithio i gau'r achosion sy'n weddill.

Ar ddiwedd mis Hydref 2025, ar draws pob un o wyth cam y Gronfa, mae 428 o ddyfarniadau gwerth £21,710,303 (allan o £1.6bn) eto i ddarparu'r holl wybodaeth fonitro, ac o'r ffigur hwn mae £14,441,721 wedi cael ei anfonebu a'i nodi felly ar systemau cyllid Llywodraeth Cymru.

O ganlyniad, nid yw'r rhain wedi'u rhyddhau o'r amodau gan nad yw'r HOLL wybodaeth monitro wedi dod i law eto. Gall hyn fod oherwydd sawl rheswm, ac rydym wedi cysylltu â phob busnes ar o leiaf dri achlysur i geisio trafod a chael gwybodaeth ganddynt. Mae'n werth nodi, pan fo busnes wedi methu â darparu tystiolaeth monitro ar ôl cwblhau, nid yw'n golygu nad oedd y busnes yn gymwys i gael cyllid, ond yn hytrach nad ydym wedi gallu penderfynu a yw wedi bodloni rhwymedigaethau'r dyfarniad.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym wedi cysylltu â 100% o'r busnesau a gefnogwyd a dyma werth y rhai nad ydynt wedi ymateb eto, er bod disgwyl i'r ffigur hwn leihau wrth i'r busnesau ddarparu rhagor o wybodaeth.

Y Sefyllfa o ran Twyll mewn perthynas â'r Gronfa Cadernid Economaidd

Mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn dangos nad oes unrhyw dwyll wedi'i nodi fel rhan o Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru. Cafodd cyflawni o fewn awdurdodau lleol ei oruchwylio gan swyddogion Adran 151, yn unol â'u canllawiau safonol o fewn awdurdodau unigol, sy'n gorfod hysbysu Archwilio Cymru ac sy'n cael eu harchwilio ar wahân. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw faterion pellach wedi'u cofnodi gan yr awdurdodau lleol, oni bai am y rhai hynny a adroddwyd yng nghanol 2024. Roedd y broses o fewn awdurdodau lleol yn gysylltiedig ag Ardrethi Annomestig er mwyn gwirio busnesau fel rhan o'u cais. Cyfrannodd hyn at y sefyllfa hon.

Yn natganiad 2024, roedd tri achos posibl o dwyll yn cael eu dwyn gan awdurdodau lleol ac adroddwyd am hyn i'r Pwyllgor, gan gadarnhau ymhellach adroddiadau blaenorol bod y gyfradd wirioneddol yn fach iawn.

Y Camau Nesaf

Byddwn yn darparu adroddiad terfynol ar y sefyllfa gloi, a fydd yn cyd-fynd â'r diweddariadau uchod, i'r Pwyllgor erbyn mis Mawrth 2026 fan bellaf.